



Electrical®
Safety
First

PA MOR DDI GEL YW EICH CARTREF?

electricalsafetyfirst.org.uk



Yn pweru newid + achub bywydau



CYNNWYS

1.	PWY YW ELECTRICAL SAFETY FIRST?	04
2.	CYFLWYNIAD	06
3.	PWY DDYLAI WNEUD GWAITH TRYDANOL YN EICH EIDDO?	08
4.	DOD I ADNABOD EICH TRYDANWAITH	10
5.	PA MOR HEN YW EICH GWIFRAU?	12
6.	PERYGLON TRYDANOL O GWMPAS Y CARTREF	14
7.	PERYGLON AMLWG OND MAE PAWB YN GWNEUD Y CAMGYMERIADAU HYN	16
8.	DIOGELWCH YN Y GEGIN	20
9.	DIOGELWCH YN YR YSTAFELL YMOLCHI	22
10.	DIOGELWCH YN YR ARDD	24
11.	DOD O HYD I DRYDANWR COFRESTREDIG	28



PWY YW ELECTRICAL SAFETY FIRST?

Electrical Safety First yw elusen y DU sy'n ymroddedig i leihau nifer y marwolaethau a'r anafiadau a achosir gan ddamweiniau trydanol.

Ein nod yw sicrhau bod pawb yn y DU yn gallu trydan yn ddiogel.

Rydym yn darparu gwybodaeth a chyngor arbenigol i helpu pobl i amddiffyn eu hunain rhag gosodiadau trydanol diffygiol, difrodedig, is-safonol, ac offer trydanol a gynhelir yn wael.

Rydym yn cael ein cydnabod gan y llywodraeth a'r diwydiant fel yr elusen ymgyrchu a'r awdurdod technegol arweiniol ar ddiogelwch trydanol.



Am fwy o gyngor
diogelwch, ewch i'n gwefan
electricalsafetyfirst.org.uk

CYFLWYNIAD

Mae trydan yn gallu lladd. Bob blwyddyn mae nifer o farwolaethau ac anafiadau yng nghartrefi'r DU yn cael eu hachosi gan drydanwaith ac offer trydanol diffygiol. Mae bron i hanner yr holl danau domestig yn cael eu hachosi gan drydan.*

Mae trydan yn rhan o'n bywydau. Rydyn ni'n ei ddefnyddio o'r eiliad rydyn ni'n deffro a thrwy gydol y dydd.

O ganlyniad, rydym weithiau'n anghofio pa mor bwerus a pheryglus y gall fod. Mae bywyd modern yn golygu ein bod yn defnyddio mwy a mwy o offer trydanol yn y cartref. Dim ond 30 mlynedd yn ôl, byddai cartref cyffredin y DU wedi cael system hi-fi ac un teledu neu fideo. Heddiw mae'n debygol y bydd setiau teledu lluosog, gliniaduron, tabledi, ffonau symudol, consolau gemau, a sawl teclyn cegin yn ogystal ag amryw o ddyfeisiau trydanol eraill. Felly, mae'r risg o ddamweiniau trydanol yn y cartref yn llawer uwch nag o'r blaen.

* Ffynhonnell: <https://www.electricalsafetyfirst.org.uk/what-we-do/our-policies/westminster/statistics-england/>



Bydd y llyfryn hwn yn rhoi cyngor syml ac effeithiol i chi i wneud eich cartref yn lle mwy diogel. Ydych chi'n gwybod pryd y cafodd eich trydan ei wirio ddiwethaf?


PWY DDYLAI WNEUD GWAITH TRYDANOL YN EICH EIDDO?

Er bod llawer o ddigwyddiadau'n cael eu hachosi gan offer diffygiol, gall gosodiad sydd wedi'i osod yn gywir a'i gynnal yn dda leihau'r posibilrwydd yn sylweddol o ddamwain neu anaf.

Felly, mae'n bwysig bod unrhyw waith gosod trydanol yn cael ei wneud gan bobl sy'n gymwys. Mae hyn yn golygu pobl sydd â'r wybodaeth, y sgiliau, y profiad a'r cymwysterau sydd eu hangen i osgoi'r peryglon y gall trydan eu creu.

Mae'n hawdd gwneud i gylched drydanol weithio - mae'n llawer anoddach gwneud iddo weithio'n ddiogel.

Rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn defnyddio trydanwr sydd wedi'i gofrestru gydag un o Gynlluniau Personau Cymwys (CPCau) a gymeradwywyd gan y llywodraeth, fel NICEIC, NAPIT, neu Ardystiad Fflam





Las, i wneud unrhyw waith gosod trydanol sydd ei angen arnoch.

Mae trydanwyr cofrestredig yn gweithio i safonau diogelwch presennol y DU, sef BS 7671 Gofynion ar gyfer Gosodiadau Trydanol (fel y'i diwygiwyd). Byddant yn cyhoeddi tystysgrif ddiogelwch ar gyfer eu gwaith trydanol i gadarnhau bod y gosodiad wedi'i ddylunio, ei adeiladu, ei archwilio a'i brofi yn unol â'r safon honno.

Mae gan bob un o weithredwyr CPCau weithdrefn gwyno i ymchwilio cwynion am drydanwyr cofrestredig, nad ydynt efallai wedi cadw at y safon genedlaethol hon.

Mae'r gofynion cyfreithiol ar gyfer

gosodiadau trydanol yng Nghymru a Lloegr yn wahanol i'r rhai yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'n rhaid i drydanwyr sy'n ymgymryd â gwaith gosod yng Nghymru a Lloegr gadw at y Rheoliadau Adeiladu ac yn yr Alban y system Safonau Adeiladu. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol cyfatebol yng Ngogledd Iwerddon.

Am fanylion darparwyr y cynllun sy'n cofrestru trydanwyr yn eich rhan chi o'r DU, gweler tudalennau 15 ac 16 o'r daflen hon. Neu ewch i'n gwefan yn electricalsafetyfirst.org.uk/findanelectrician



DOD I ADNABOD EICH TRYDANWAITH




PRIF SWITCH

Mae'r prif switch yn y blwch ffiwsiau yn caniatáu i chi ddiffodd y cyflenwad i'ch gosodiad trydanol. Mae gan rai mwy nag un prif switch. Er enghraifft, os yw'ch cartref yn cael ei gynhesu gan **wresogyddion storio trydan**, efallai y bydd gennych flwch ffiwsiau ar wahân ar eu cyfer. Dylai fod yn hawdd ei gyrraedd, felly darganfyddwch ble mae'ch prif switch fel y gallwch ddiffodd y trydan mewn argyfwng.



FFIWSIAU

Yn aml mae gan gartrefi hŷn ffiwsiau y gellir eu hailweirio, sy'n datgysylltu'r gylched yn awtomatig i atal perygl pan fydd diffyg, neu fod cerrynt yn gorlwytho a mynd uwchlaw lefel ddiogel. Mae'r ffiws sydd wedi toddi yn torri'r gylched ddiffygiol, gan ei amddiffyn rhag gorlwytho.



TORWYR CYLCHED

Mae cartrefi mwy newydd yn debygol o gael torrwr cylched yn y blwch ffiws, sy'n diffodd torrwr cylched os oes diffyg. Maent yn debyg o ran maint i ddeiliaid ffiwsiau, ond maent yn rhoi amddiffyniad mwy manwl gywir na ffiwsiau. Pan fyddant yn 'tripio', i gyd sydd rhaid gwneud yw ailosod y switsh. Fodd bynnag, yn gyntaf mae angen i chi ddoed o hyd i'r diffyg a'i gywiro, neu lle bo angen, ymgysylltu â thrydanwr i wneud hynny ar eich rhan.



DYFEISIAU CERRYNT GWEDDILLIOL

Mae dyfais cerrynt gweddilliol (DCG) yn ddyfais achub bywyd sydd wedi'i chynllunio i'ch atal rhag cael sioc drydanol angheuol os ydych yn cyffwrdd â rhywbeth byw, fel gwifren noeth. Mae'n darparu lefel o amddiffyniad na all ffiwsiau cyffredin neu dorwyr cylched eu gwneud.

O dan y safon diogelwch y DU, mae'n rhaid i bron pob soced mewn gosodiadau trydanol newydd ac unrhyw socedi newydd sy'n cael eu hychwanegu at osodiad presennol, gael amddiffyniad DCG. Os yw eich gosodiad trydanol yn cynnwys un DCG neu fwy, dylech wirio eu bod yn gweithio'n iawn trwy wthio'r botwm 'Prawf' bob tri mis. Pan fyddwch yn profi'r DCG, dylai ddiffodd y pŵer i'r rhannau o'r cartref y mae'n ei amddiffyn. Os ydych yn pwysu'r botwm ac NAD yw eich DCG yn diffodd y cyflenwad trydan i'r cylchedau gwarchoddedig, neu os nad yw'r botwm yn ailosod, mynnwch gyngor gan drydanwr cofrestredig.

PA MOR HEN YW EICH GWIFRAU?

Mae trydan fel arfer allan o'r golwg ac allan o feddwl, oherwydd bod ceblau wedi'u cuddio'n gyfleus y tu mewn i waliau, nenfydau, gofodau atig a lloriau, switshys a socedi. Felly nid yw'n syndod ein bod yn anghofio gwirio gosodiadau trydanol am arwyddion o draul.

Mae gwifrau diffygiol ac sy'n heneiddio yn un o brif achosion tanau trydanol yn y cartref. Gallwch ddiogelu eich hun trwy gael gwiriadau rheolaidd ar ffurf Adroddiad Cyflwr Gosodiadau Trydanol (neu EICR) a gynhelir ar gyflwr eich ceblau, switshys, socedi ac ategolion eraill.

Mae yna arwyddion clir a all eich helpu i ddweud beth yw oedran y gosodiad trydanol yn eich cartref. Cadwch lygad am y canlynol:

- Ceblau wedi'u gorchuddio mewn rwber du, plwm neu ffabrig.
- Blwch ffiwsiau gyda chefn pren, switshys haearn bwrw neu


gymysgedd afreolus o flychau ffiwsiau.

- Socedi pin crwn hŷn a switshys goleuadau crwn, fflecs plethedig yn hongian o rosod nenfwd, switshys brown a du, a socedi wedi'u gosod mewn byrddau sgertin.
- Switshys goleuadau wedi'u gosod ar y wal mewn ystafelloedd ymolchi.

Efallai y bydd y rhain yn awgrymu bod eich gosodiad dros 40 oed ac efallai y bydd angen ei ail-wifro. Cysylltwch â thrydanwr cofrestredig i gael adroddiad EICR ar gyflwr eich gosodiad.



Cebblau sydd wedi'u gorchuddio mewn rwber du




Blwch ffiwsiau gyda chefn pren



Socedi pin crwn a switshys goleuadau crwn



Switshys goleuadau wedi'u gosod ar y wal



Ni waeth pa mor hen yw'ch eiddo a'ch gosodiad trydanol, byddant yn dioddef dirywiad. Dylech gael trydanwr cofrestredig i wirio eich gwifrau o leiaf bob deng mlynedd, a/ neu symud i eiddo newydd.

Ydych chi'n gwybod pryd y cafodd eich trydan ei wirio ddiwethaf?

PERYGLON TRYDANOL O GWMPAS Y CARTREF

Mae trydan yn gwella ein bywydau bob dydd - ond dim ond pan gaiff ei ddefnyddio'n ddiogel. Peidiwch â chreu peryglon trwy orlwytho socedi a pheidiwch byth ag anwybyddu arwyddion rhybuddio fel arogleuon llosgi, hymian neu gracio, ffiwsiau'n chwythu neu dorwyr cylched yn tripio.

Mae damweiniau trydanol yn fwyaf tebygol o ddigwydd pan fydd cyfarpar wedi'i ddifrodi neu'n cael ei gamddefnyddio. Gall methu â datrys y broblem gael effeithiau dinistriol. Mae'n swnio fel synnwyr cyffredin, ond byddech chi'n synnu faint ohonom sy'n methu â dilyn canllawiau diogelwch sylfaenol.

Pryd wnaethoch chi edrych ddiwethaf ar gyflwr a diogelwch eich plygiau, socedi a cheblau hyblyg? Os cânt eu difrodi, gallant achosi siociau trydan, llosgiadau a thanau.

Mae'r holl offer modern yn y DU

yn defnyddio'r plwg pin 13-amp pin cyffredin.

Gall plygiau a cheblau ddiodeff difrod, yn enwedig os ydyn nhw'n cysylltu ag offer llaw. Gyda'r plwg wedi'i dynnu o'r soced, gwiriwch y cebl o un pen i'r llall a gofynnwch y cwestiynau canlynol:

- A yw wedi'i gysylltu'n ddiogel â'r offer a'r plwg?
- A yw wedi cael ei dorri, ei wisgo neu ei ddifrodi mewn unrhyw ffordd?

Yn ddelfrydol, ni ddylai fod unrhyw gymalau yn y cebl, ac yn sicr dim atgyweiriadau gyda thâp inswleiddio.

PERYGLON AMLWG OND 7 MAE PAWB YN GWNEUD Y CAMGYMERIADAU HYN

CYNNAL A CHADW OFFER SYDD O HYD WEDI'I BLYGIO I MEWN

Diffoddwch eich offer cyn ceisio gwneud unrhyw waith cynnal a chadw. Rydych mewn perygl o gael anaf o sioc drydanol, llosgiadau a symudiad mecanyddol os ydych chi'n ymgymryd â gwaith trwsio neu gynnal a chadw, cyn i offer gael eu datgysylltu ac wedi oeri.

SYCHU DILLAD AR WRESOGYDD TRYDAN

Mae hyn yn arbennig o beryglus a gallai achosi sioc drydanol neu dân. Mae gan lawer o offer trydanol, fel gwresogyddion, slotiau awyru i atal gorboethi. Os yw'r slotiau awyru hyn wedi'u gorchuddio, gallai'r offer gorboethi a mynd ar dân. Os bydd dŵr yn diferu mewn i'r offer, mae yna berygl o sioc drydanol.



Gwresogydd trydan



Ceblau ar draws llwybrau cerdded

LLUSGO CEBLAU O DAN GARPED NEU RYG I'W CADW ALLAN O'R Ffordd

Yn ogystal â bod yn berygl baglu, gall ceblau hyblyg sy'n cael eu llusgo o dan garpedi, rygiau neu ar draws llwybrau cerdded fod yn risg tân.

GOSOD LAWROLEUADAU

Gall dewis y lawroleuadau anghywir, eu gosod yn anghywir neu osod y lamp amnewid anghywir beri risg tân difrifol yn eich cartref. Byddem yn argymhell yn gryf defnyddio trydanwr cofrestredig i osod eich lawroleuadau ac yna cadw cyfarwyddiadau i'w cyfeirio atynt pan fydd angen i chi ailosod lampau.

Dylech wirio am farciau gweladwy ar lawroleuadau sy'n nodi watedd a math y lamp.

Hefyd, edrychwch ar y lawroleuadau a'u hamgylchedd am arwyddion o orboethi, fel labeli wedi'u cyrlïo ac aflwiad neu losgi.

STORIO DEUNYDDIAU LLOGADWY YN AGOS AT OFFER TRYDANOL

Peidiwch â storio deunyddiau lloggadwy (dillad, papurau, deunyddiau glanhau ac ati) yn agos at eich datgysylltydd ffiwsiau, mesurydd trydan neu flwch ffiwsiau, yn enwedig os yw'r rhain o dan y grisiau (sy'n llwybr dianc i fyny'r grisiau mewn argyfwng). Bu nifer o danau difrifol mewn cartrefi lle mae diffyg yn yr offer hwn, y gellid ei reoli fel arall, wedi cynnau tân mewn deunyddiau sydd wedi'u storio gerllaw.



Peidiwch â storio deunyddiau lloggadwy yn agos at offer trydanol



HONGIAN LLUNIAU A RHOI SILFFOEDD I FYNY

Peidiwch â drilio tyllau na tharo hoelion mewn waliau neu raniadau, heb wybod beth sydd wedi'i guddio y tu ôl iddynt. Maent yn cuddio ceblau trydanol a phibellau nwy a dŵr. Mae drilio trwy gebl byw yn hynod beryglus a gallai achosi sioc drydanol, llosgiadau neu hyd yn oed dân.

Bydd synhwyrdd cebl a metel yn eich helpu i ddod o hyd i unrhyw geblau a phibellau metel.

Mewn gosodiadau trydanol modern, mae ceblau'n cael eu rhedeg fel arfer mewn llinell syth, naill ai'n llorweddol neu'n fertigol, i ategolyn fel switsh neu soced.

Gall ceblau hefyd redeg o fewn 15cm o ben y wal neu'r rhaniad, neu o fewn 15cm i ongl a ffurfiwyd gan ddwy wal / rhaniad.



FAINT YDYCH CHI'N DIBYNNU AR ADDASWYR A CHEBLAU ESTYNIAD O AMGYLCH EICH CARTREF?

Gallwch ddisgwyl dod o hyd i tua phedair soced mewn ystafell gyffredin mewn eiddo. Er y dylai hyn fod yn ddigon at y rhan fwyaf o ddibenion, mae cynnydd yn y defnydd o gyfrifiaduron, consolau gemau ac offer eraill wedi arwain at gynydd yn nifer y socedi sydd eu hangen.

Gall ceblau estyniad ac addaswyr ddarparu ateb cyflym a hawdd ond, mewn gwirionedd, maent yn aml yn cael eu camdefnyddio a gallant gyflwyno perygl gwirioneddol iawn. Mewn achosion eithafol gallant orboethi ac achosi tân.

YDYCH CHI'N GORLWYTHO'R SOCEDI YN EICH CARTREF?

Defnyddiwch ein cyfrifiannell
ar-lein i ddarganfod yr ateb:
[electricalsafetyfirst.org.uk/
overloadingsockets](https://electricalsafetyfirst.org.uk/overloadingsockets)



Am gyngor ar sut i gynnal gwiriadau
gweledol syml ar y trydan yn eich
cartref, ewch i [electricalsafetyfirst.
org.uk/visualchecks](https://electricalsafetyfirst.org.uk/visualchecks).



PEIDIWCH Â GWNEUD Y CANLYNOL:

- Defnyddio addaswyr wedi'u plygio i mewn i addaswyr eraill.
- Troslwytho addaswyr, yn enwedig gydag offer cerrynt uchel fel tegellau, heyrn a gwresogyddion.
- Prynu addaswyr rhad, is-safonol.

Y peth gorau i'w wneud yw cael trydanwr cofrestredig i osod socedi ychwanegol. Gofynnwch i'r trydanwr osod allfeydd soced ychwanegol yn hytrach na rhai sengl.

DIOGELWCH YN Y GEGIN

Rydym i gyd yn gwybod bod dŵr a thrydan yn creu cyfuniad marwol. Felly mae'n bwysig bod offer trydanol yn cael eu gosod yn gywir, a'ch bod chi'n eu defnyddio gyda gofal.



- Er mwyn osgoi dŵr rhag dod i gysylltiad â thrydan, gwnewch yn siŵr bod eich socedi neu switshys wedi'u gosod ar bellter diogel (o leiaf 30cm yn llorweddol) o'r sinc.
- Os yw offer fel oergelloedd, peiriannau golchi llestri a pheiriannau golchi dillad yn cael eu gosod o dan arwynebau gwaith, gall fod yn anodd cyrraedd socedi. Yn ddelfrydol dylai'r offer hyn gael eu rheoli gan uned cysylltiadau ffiwsiau wedi'i switsio, sydd wedi'i gosod uwchben yr arwyneb gwaith, lle gallwch ei gyrraedd yn hawdd.



- Os yw soced yn y gegin neu unrhyw le arall yn y tŷ yn debygol o gael ei ddefnyddio i gyflenwi offer cludadwy yn yr awyr agored, dylai gael ei ddiogelu gan DCG.
- Cymerwch ofal arbennig wrth ddefnyddio offer trydanol yn y gegin. Gall y gymysgedd o ddŵr, arwynebau poeth, ceblau hyblyg a thrydan fod yn beryglus iawn. Gwiriwch fod ceblau hyblyg ac offer fel tegellau a thostwyr mewn cyflwr da.

PEIDIWCH Â GWNEUD Y CANLYNOL:

- Defnyddio offer neu switshys trydanol gyda dwylo gwlyb.
- Lapio ceblau hyblyg o amgylch unrhyw offer pan fydd yn dal yn dwym.
- Ceisio glanhau neu atgyweirio peiriant pan fydd dal wedi'i blygio'i mewn.
- Ceisio cael tost sy'n sownd allan o dostiwr os yw'r offer dal wedi'i blygio i mewn, ac yn enwedig nid gyda chyllell fetel, gan fod cydrannau byw yn aml y tu mewn i'r offer.

DIOGELWCH YN YR YSTAFELL YMOLCHI

Mae dŵr yn cario trydan yn effeithlon. Pan fydd y ddau yn cymysgu, gall y canlyniad ladd. Oherwydd hyn, o safbwynt diogelwch trydanol, mae'n bosibl mai'r ystafell ymolchi yw'r ystafell fwyaf peryglus yn y cartref.

Mae canlyniadau sioc drydanol yn llawer mwy difrifol mewn ystafell ymolchi neu ystafell gawod wrth i groen gwlyb leihau ymwrthedd y corff. Mae gofynion arbennig ar gyfer gosodiadau trydanol mewn ystafelloedd ymolchi. Peidiwch â dod ag offer cludadwy sy'n cael eu pweru gan y prif gyflenwad fel sychwyr gwallt, gwresogyddion neu radios i ystafell ymolchi. Gallech gael eich lladd neu eich anafu'n ddifrifol.

SOCEDI

Yn gyffredinol, ni chaniateir socedi (701.512.3) mewn ystafelloedd ymolchi neu ystafelloedd cawod (ar wahân i unedau cyflenwi raseli trydan) oni bai y

gellir eu gosod o leiaf dri metr o'r bath neu'r gawod.

Rhaid i unedau cyflenwi raseli trydan fod yn bellter diogel o'r bath neu'r gawod er mwyn osgoi tasgu dŵr.

GOLEUADAU

Mae goleuadau nenfwd caeedig yn well na ffitiadau golau pendant (sy'n hongian i lawr). Dylai pob ffitiadau golau nad ydynt wedi'u hamgáu fod y tu hwnt i gyrraedd rhywun sy'n defnyddio'r bath neu'r gawod, neu sy'n wlyb o hyd.

Llinyn tynnu wedi'i osod ar nenfwd neu switsh wedi'i osod ar wal allanol yr ystafell yw'r opsiwn mwyaf diogel



Goleuadau nenfwd caeedig

ar gyfer ystafell ymolchi. Mae switshys golau safonol ar y wal yn berygl posibl oherwydd lleithder a dwylo gwlyb.

GWRESOGYDDION A RHEILIAU TYWEL

Mae gwres canolog yn ffordd dda o gadw ystafell ymolchi'n gynnes. Ond, os oes gennych wresogydd ystafell drydan, rhaid ei osod ar bellter diogel o'r bath neu'r gawod.


Rhaid i wresogyddion dŵr trydan a nwy mewn ystafell ymolchi fod yn sefydlog ac wedi'u gwifro'n barhaol, ac

ni chaniateir iddynt gael eu cyflenwi gan gyflenwad allfa soced (554.3.3).

Dylai gwresogyddion trydan yn ddelfrydol gael eu rheoli gan linyr tynnu, neu switsh y tu allan i'r ystafell ymolchi.

CAWODYDD


Rhaid i gawod drydan fod ar ei gylched ei hun yn uniongyrchol o'r blwch ffiwsiau.



DIOGELWCH YN YR ARDD

Er bod trydan yn gwneud garddio'n llawer haws, mae amodau gwlyb a chyswllt â'r ddaear yn golygu bod y risg o anaf neu farwolaeth o sioc drydanol yn cynyddu'n fawr o'i gymharu â defnyddio offer trydanol dan do.

Mae llawer o ddamweiniau gardd yn ganlyniad i drin offer yn ddiotal, diffyg canolbwyntio a methu â dilyn cyfarwyddiadau gweithredu'r gwneuthurwr. Trwy ddilyn canllawiau diogelwch syml bob tro y byddwch yn defnyddio offer trydanol yn yr awyr agored, gallwch osgoi damwain ddifrifol yn hawdd.



PAN FYDDWCH YN DEFNYDDIO OFFER TRYDANOL YN YR AWYR AGORED, GALL AMDDIFFYNIAD DCG 30MA FOD YN ACHUBWR BYWYD

Hebdo, os ydych yn torri drwy gebl trydanol, gallai gwaith syml fel torri'r lawnt droi'n drychineb marwol.

Mae DCG yn darparu lefel o amddiffyniad rhag sioc drydanol na all ffiwsiau arferol na thorwyr cylched. Pan gaiff eu defnyddio yn yr awyr agored, dylai pob offer, megis peiriannau torri gwair, tocwyr gwrychoedd ac offer pŵer eraill, cael eu plygio dim ond i mewn i soced sydd wedi'i diogelu gan DCG.

Os nad oes gennych socedi sy'n cael eu gwarchod gan DCG, prynwch DCG cludadwy o ansawdd da o ffynhonnell sydd ag enw da.

Beth bynnag yw'r math o DCG sydd gennych yn eich cartref, dylech ei brofi o leiaf bob chwe mis trwy ddefnyddio'r botwm 'Prawf' ar y ddyfais. Dylech brofi DCG cludadwy bob tro y byddwch chi'n eu defnyddio.

CEBLAU ESTYNIAD, CEBLAU A CHYSYLLTIADAU

Os nad ydych chi'n gwirio cyflwr ceblau estyniad, ceblau a chysylltiadau, ac yn eu defnyddio'n anghywir, fe allech chi gael sioc drydanol.

Gwnewch yn siŵr eu bod:

- Yn addas ar gyfer defnydd awyr agored - yn gallu gwrthsefyll tywydd gyda chysylltiadau wedi'u mowldio, sy'n atal lleithder rhag mynd i mewn.
- Wedi'u graddio'n gywir i gyd-fynd â'r offer cysylltiedig.
- Wedi'u plygio'n iawn, yn enwedig cysylltwyr cebl mewn-lein.
- Wedi'u didorchi er mwyn atal gorboethi.
- Wedi'u cadw'n lân ac yn rhydd rhag difrod.
- Yn cael eu hamnewid os bydd difrod yn cael ei ddarganfod.
- Wedi'u lleoli'n briodol i'w hatal rhag cael eu difrodi.
- Wedi'u cadw'n sych.



Cebblau estyniad sy'n gwrthsefyll tywydd



TORRI'R LAWNT A THORRI GWRYCHOEDD

Mae gan beiriannau torri gwair a thocwyr gwrychoedd lalfnau miniog a rhannau sy'n symud yn gyflym, a all niweidio neu dorri trwy geblau trydanol mor hawdd ag y maent yn torri trwy laswellt. Mae'r risg o sioc drydanol, o gebl sydd wedi'i ddifrodi, yn uchel.

Gwnewch yn siŵr eich bod dilyn y camau hyn:

- Peidiwch â thorri'r glaswellt neu'r gwrych mewn amodau gwlyb.
- Gwisgwch esgidiau synhwyrol i amddiffyn eich traed.
- Gwiriwch geblau, cysylltiadau a phlygiau cyn eu defnyddio.
- Cadwch y cebl yn glir o'r ardal dorri gwair.
- Datgysylltwch y peiriant torri gwair neu'r tocwyr gwrychoedd ac aros i'r lalfnau ddod yn llonydd cyn clirio rhwystrau neu wneud unrhyw waith cynnal a chadw.





SEFYDLIADAU
SY'N COFRESTRU
TRYDANWYR SY'N
GWNEUD GWAITH GOSOD
TRYDANOL DOMESTIG



CYMRU A LLOEGR

Mae'r sefydliadau canlynol wedi'u hawdurdodi gan Lywodraeth y DU i gofrestru trydanwyr fel y gallant wneud gwaith gosod trydanol domestig sy'n bodloni Rhan P o'r Rheoliadau Adeiladu.

NAPIT Registration Ltd

0870 444 1392
napit.org.uk

NICEIC

0870 013 0382
niceic.com

YR ALBAN

Cymeradwyir y sefydliadau canlynol gan Lywodraeth yr Alban i gofrestru trydanwyr i wneud gwaith gosod trydanol domestig sy'n bodloni'r system Safonau Adeiladu.

NICEIC

0870 013 0382
niceic.com

SELECT

0131 445 5577
select.org.uk

GOGLEDD IWERDDON

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ofynion cyfreithiol ar gyfer gwaith gosod trydanol domestig yng Ngogledd Iwerddon. Fodd bynnag, mae'r sefydliadau canlynol yn cofrestru trydanwyr a ddylai fod yn gymwys i wneud y math hwn o waith.

NAPIT Registration Ltd

0870 444 1392
napit.org.uk

NICEIC

0870 013 0382
niceic.com





Electrical[®]
Safety
First

**CADWCH CHI A'CH
TEULU YN DDIOGEL
GARTREF.**

**EWCH I'N CYNGOR
DIOGELWCH TRYDANOL
HELAETH AM DDIM:**

ELECTRICALSAFETYFIRST.ORG.UK



Electrical Safety First yw elusen y
DU sy'n ymroddedig i leihau nifer y
marwolaethau a'r anafiadau a achosir
gan ddamweiniau trydanol.

Ein nod yw sicrhau bod pawb yn y DU
yn gallu defnyddio trydan yn ddiogel.

© Electrical Safety First, Ionawr 2025.

Electrical Safety First
45 Great Guildford Street
London
SE1 0ES

enquiries@electricalsafetyfirst.org.uk

Elusen Gofrestredig (Cymru a Lloegr)
Rhif 257376 (Yr Alban) Rhif SC039990